TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Mai 2021

## Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

**Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

*"Fe fuaswn i'n ddiolchgar iawn pe baech chi'n darparu manylion y contract isod dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.*

*Gwasanaethau Diogelwch a Rheoli Tyrfaoedd:*
*https://urldefense.com/v3/__https://www.sell2wales.gov.wales/search/show/search_view.aspx?ID=MAR360360__;!!KArG4XNCWg!yKYeqvCZww5niTVbiTPECEYYWcUlw-IB-uh7Mzkfbrfp61a1K2MZs9U40FoOAAfdHqNL--6qFQ$*

*Y manylion sydd eu hangen arnom yw:*
*• Cyflenwyr a wnaeth gais am gael eu cynnwys ar gyfer bob fframwaith/contract ac a fu'n llwyddiannus ac na fu'n llwyddiannus yn y cam Holiadur Cyn-gymhwyso a Gwahoddiad i Dendro*
*• Gwariant gwirioneddol ar y contract/fframwaith hwn (ac unrhyw is lotiau), o ddechrau'r contract hyd at y dyddiad presennol*
*• Dyddiad dechrau a hyd y fframwaith*
*• A oes cymal ymestyn yn y fframwaith/contract ac, os oes, beth yw hyd yr estyniad?*
*• A oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynglŷn a fydd y fframwaith/contract yn cael eu hymestyn neu eu hadnewyddu?*
*• Pwy yw'r uwch swyddog (y tu allan i gaffael) sy'n gyfrifol am y contract hwn?"*

**Ar ôl adolygu eich cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Gan mai hysbysiad tybiannol yw hwn, nid yw'r wybodaeth rydych chi wedi gofyn amdani yn bodoli eto ac, o'r herwydd, nid ydym yn gallu ei darparu. Bydd yr Hysbysiad Contract, pan/os caiff ei gyhoeddi, yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â'r contract/fframwaith hwn a bydd yr Hysbysiad Dyfarnu Contract, pryd/os caiff ei gyhoeddi, yn cynnwys manylion yr ymgeisydd llwyddiannus.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

## Trafnidiaeth Cymru

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".